

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	HYDREF 11 2012
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF A DIWEDDARU'R IS-BWYLLGOR

1. CWYNION YN YMWNEUD A'R CYNGOR

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Gorffennaf 2012	Cwyn gan Gyngorydd ynglŷn a chyfarwyddid uniaith Saesneg ar groesfan newydd ar ffordd osgoi Porthmadog	Yr Uned Cefnffyrdd yn cadarnhau mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw'r mater yma, ac wedi anfon y gwyn ymlaen. Os na ddaw ymateb cadarnhaol, byddwn yn cyfeirio'r mater ymlaen at Gomisiynydd y Gymraeg
Gorffennaf 2012	Cwyn gan Gyngorydd ynglŷn â'r defnydd o'r term "gwastraff cŵn" (yn hytrach na "baw cŵn") ar finiau'r Cyngor	Ymateb gan Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn datgan mai dyma'r geiriad safonol
Gorffennaf 2012	Cwyn gan Gyngor Cymuned Llandwrog ynglŷn ag arwydd "Stop" wedi'i baentio ar lon	Yr Adran Reoleiddio yn datgan fod y rheoliadau cyfredol a'r geiriadur yn derbyn "Stop" fel y term Cymraeg
Awst 2012	Cwyn gan Gyngorydd ynglŷn a ffurflen Trwyddedu Digwyddiadau uniaith Saesneg (dogfen y Swyddfa Gartref heb fersiwn Cymraeg dynodedig)	Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi cyfieithu'r ffurflen, ac yn derbyn ceisiadau arni. Beth bynnag, nid yw'r Swyddfa Gartref wedi cytuno'n ffurfiol iddi, ac felly codwyd hyn gyda Comisiynydd y Gymraeg. Yn y cyfamser, gofynnir am arweiniad gan y Pwyllgor Iaith ynglŷn â defnydd diofyn o'r fersiwn (answyddogol) Gymraeg

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Awst 2012	Cwyn gan aelod o staff bod y system hidlo negeseuon electronig mewnol yn uniaith Saesneg	Y Gwasanaeth Gofal Cwsmer wedi codi'r mater gyda'r cwmni ac yn ceisio datrys y broblem
Awst 2012	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd nad oedd cwrs achrediad landlordiaid ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg	Y Cyngor yn talu am y gwasanaeth yma, ac er bod y gofyn i allu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i nodi yn y briff, ni fu galw am gwrs Cymraeg o'r blaen. Mae'r Gwasanaeth Tai wedi derbyn cadarnhad y bydd hyfforddwyr Cymraeg ar gael, a byddent yn ei gwneud yn glir bod modd derbyn yr hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg
Awst 2012	Cwyn ynglŷn â'r defnydd o enwau strydoedd Saesneg Mewn llythyr safonol ynglŷn ag ail-wynebu ffyrdd	Ymateb gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cadarnhau mai arddel yr enwau Cymraeg yw'r disgwyl, ac yn ymddiheuro. Gweler hefyd yr Adroddiad a gyflwynir ar enwau lleoedd, strydoedd a thai
Medi 2012	Cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ran aelod o'r cyhoedd na dderbyniodd gyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'i ddymuniad. Hefyd y Comisiynydd yn holi ein cydymffurfiaeth a'n gofynion recriwtio yn sgil y methiant yma	Yr Adran yn ymateb bod y person wedi cael cynnig gwasanaeth cyfrwng Gymraeg a bod lefel (cyfarfodydd, gohebiaeth) ac yn cadarnhau'r trefniant staffio: Swydd interim wedi'i llenwi gan ddysgwr, ond y Cyngor wedi ac yn cyfarch yr anghenion o safbwynt gloywi iaith. Yn dilyn trafodaethau gyda Swyddfa'r Comisiynydd, mae'r Adran yn llunio cynllun gwella.

2. CWYNIION YN ERBYN CYRFF ERAILL

DYDDIAD	CWYN	YMATEB
Awst 2012	Yr Adran Economi a Chymuned yn ysgrifennu at Dim Rhaglenni Gwledig Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ansawdd Cymraeg llythyr a anfonwyd atynt gan y Tîm	Disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru
Awst 2012	Cwyn gan aelod o staff ynglŷn â llythyr uniaith Saesneg gan Gyngor Gofal Cymru	Yr aelod staff yn derbyn ymddiheuriad a llythyr Cymraeg

3. DIWEDDARIAD:

a) Arwydd WC ar y A487, Porthmadog

Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru nad oedd ganddynt ddewis ond defnyddio'r ffurf yma dan ofnyion Confensiwn Fienna ar Arwyddion a Signalau Ffyrdd 1968, Cyfeiriwyd y mater at Gomisiynydd y Gymraeg. Cafwyd cadarnhad gan Swyddfa'r Comisiynydd eu bod o'r farn mai defnyddio'r symbol safonol am doiled fyddai'n addas gan nad oes ystyr i "WC" yn y Gymraeg. Bydd y Comisiynydd yn anfon nodyn barn i'r perwyl yma at Lywodraeth Cymru.

b) Arwyddion Cymraeg

Penderfynwyd yng nghyfarfod mis Mehefin anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn pwysu am adolygu'r polisïau cynllunio cenedlaethol fel eu bod yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r angen i gael arwyddion yn y Gymraeg ar ddatblygiadau manwerthu. Anfonwyd drafft o'r llythyr at Uwch Reolwr y Gwasanaeth Cynllunio am sylwadau. Daeth ymateb i'r perwyl y byddai'n fwy addas ac ymarferol i gadarnhau rôl Comisiynydd y Gymraeg yn y cyd-destun yma a phwyso am sicrwydd o'r grym yma. Gofynnir i'r Pwyllgor am eu sylwadau.

c) Bysus Padarn

Trefnir y cyfarfod at y dyfodol agos, yn dilyn cadarnhad ynglŷn â'r staff perthnasol i fynychu.